Lewis Valentine: 1893-1986

Llosgi'r ysgol fomio

Dewrder / sefyll dros yr hyn oedd yn ei gredu

Gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd Lewis Valentine. Bu'n weinidog yn Llandudno a Rhosllannerchrugog. Ond mae llawer yn cofio amdano, nid fel gweinidog yn unig, ond fel bardd ac emynydd, ond yn fwyaf arbennig fel un o'r criw a losgodd yr Ysgol Fomio ar dir Penyberth, Llŷn. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu Lewis Valentine yn filwr. Credai yr hyn oedd yn cael ei ddweud, sef mai hwn oedd y rhyfel i derfynu pob rhyfel. Daeth o'r rhyfel hwnnw yn drist a phenderfynodd na fyddai'n chwarae ei ran mewn unrhyw ryfel byth wedyn.

Trwy gydol tri degau'r ganrif ddiwethaf roedd Winston Churchill wedi rhybuddio bod rhyfel arall ar y gorwel. Daeth gair o'r Weinyddiaeth Ryfel yn Llundain fod cynllun i godi erodrôm yn Llŷn. Y bwriad oedd dysgu hedfan awyrennau rhyfel a gollwng bomiau ym Mhorth Neigwl. Bu llawer o brotestio. Penderfynwyd creu pamffledi a phosteri. Y slogan oedd, "Lloegr a'i llu yn llygru Llŷn!"

Daeth nifer o ddynion at ei gilydd. Yn eu plith, roedd Saunders Lewis, D.J. Williams a Lewis Valentine. Y bwriad oedd llosgi'r Ysgol Fomio. Roedd y llosgi i ddigwydd ar nos Lun, 7 Medi, 1936. Dyma gyrraedd y llecyn. Gwnaed yn sicr nad oedd neb yno. Aeth rhai o'r criw, saith i gyd, o gwmpas y lle i wneud yn siŵr nad oedd neb yn eu gweld. Doedd yr un creadur byw ar gyfyl y lle. Roedden nhw wedi mynd â rhaff efo nhw. Pwrpas y rhaff oedd i glymu'r gwyliwr nos, ond gan nad oedd neb yno fu dim rhaid defnyddio'r rhaff o gwbl. Dyma ddechrau chwistrellu'r petrol ar y cytiau. Gweithred beryglus iawn. Roedd rhaid sugno'r petrol o duniau bychain ac yna chwistrellu'r cytiau.

"Mi ro i ugain munud i chi fynd yn glir cyn i ni danio," meddai un ohonyn nhw.

Rhedodd y gweddill am y ceir, menig am eu dwylo a hosanau am eu sgidiau rhag i neb weld ôl bysedd nac ôl traed. Ond bu'n rhaid tanio cyn i'r ugain munud ddod i ben. Yn y pellter dechreuodd ci gyfarth yn wyllt. Sylweddolwyd bod y gwyliwr nos ar ei ffordd

yn ôl. Doedd dim amdani ond tanio a hel eu traed cyn gynted ag oedd bosib. Doedd dim eiliad i'w wastraffu. Yn sicr, doedden nhw ddim eisiau cael eu dal yn rhedeg i ffwrdd. Roedd yr Ysgol Fomio ar dân!

Yn dilyn y digwyddiad cerddodd Lewis Valentine a dau arall i mewn i swyddfa'r heddlu ym Mhwllheli.

"Fel y gwyddoch, mae'r Ysgol Fomio ar dân. Rydyn ni wedi dod yma i ddweud mai ni sy'n gyfrifol am gynnau'r tân," meddai un ohonyn nhw wrth y rhingyll.

Rhoddodd y tri eu henwau a'u cyfeiriadau'n llawn i'r heddlu y noson honno. Bore drannoeth roedd y tri o flaen eu gwell yn y llys yng Nghaernarfon. Cafodd y tri eu rhyddhau ar fechnïaeth. Ar ôl gwrandawiad yng Nghymru a Lloegr fe'u carcharwyd am naw mis.

Tybed a oedd Lewis Valentine yn edifar am yr hyn a wnaeth y noson honno? "Yr wyf yn gwbl ddiysgog – yr oedd yn rhaid wrth y weithred hon. Nid wyf wedi cael achos i newid dim ar fy meddwl."

"Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion, dywedaf. 'Bydded heddwch i ti'."

Salm 122:8

"O! Dywysog ein tangnefedd,
maddau falchder ym mhob gwlad.
Gwna ni oll yn ostyngedig
i feddiannu gras y Tad."
Amen.

(W. Rhys Nicholas)

Wrth edrych yn ôl ar ddigwyddiad Penyberth, tybed a oedd Lewis Valentine a'i griw yn iawn, wedi'r cwbl? Ai gweithred o drais oedd hon yn y pen draw?